enquiries@ashwales.co.uk
ashcymru
FFEITHIAU AC YSTADEGAU
tel: 029 2064 1101

Smyglo Tybaco yng Nghymru

Beth yw Smyglo Tybaco?

Ceir gwahanol ffyrdd o fasnachu cynhyrchion tybaco'n anghyfreithlon, gan gynnwys smyglo ar raddfa fawr, smyglo ar raddfa fach a smyglo cynhyrchion ffug. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r broblem yw smyglo cynhyrchion ffug. Gall cynhyrchion a gaiff eu smyglo fod yn gynhyrchion tybaco a gynhyrchwyd yn y Deyrnas Unedig ond a ailgyfeiriwyd i'r farchnad ddu.

Diffiniadau

- ✓ Smyglo yw cludo a dosbarthu cynhyrchion tybaco'n anghyfreithlon, gan amlaf heb dalu trethi cywir y llywodraeth. Gall smyglo fod ar raddfa fawr neu fach.
- ✓ Ffugio yw cynhyrchu sigaréts brand "ffug" yn anghyfreithlon heb ganiatâd perchennog y brand.

Smyglo tybaco yng Nghymru

Mae smyglo tybaco'n achosi risg difrifol i iechyd y cyhoedd trwy danseilio mentrau y bwriedir iddynt sicrhau y defnyddir llai o dybaco. Mae tybaco wedi'i smyglo'n fwyaf tebygol o gael ei werthu mewn ardaloedd o amddifadedd lle mae cyfraddau defnyddio tybaco eisoes yn achosi afiechyd sylweddol.

Mae yna dystiolaeth anecdotaidd bod pobl yn gallu prynu tybaco anghyfreithlon yng Nghymru heb fawr o drafferth ond hyd yn hyn, ni chafwyd arolwg o ysmygwyr ar raddfa fawr i ymchwilio i hyn. Mewn arolwg bach o ysmygwyr ifanc hyd at 18 oed ar draws De Cymru yn 2008, nododd 1 allan o bob 8 eu bod yn prynu sigaréts am £3.50 neu lai (- cofier mai £5.44 yw'r pris adwerthol cyffredin) – gan awgrymu'n gryf fod tybaco anghyfreithlon ar gael i bobl ifanc. Hefyd, dywedodd 7% o ysmygwyr ifanc eu bod yn gallu prynu sigaréts unigol am gyn lleied â 30c.[1]

Mae penawdau diweddar yn y wasg Gymreig yn dangos sut y daw cynhyrchion tybaco i Gymru:

- ✓ *Defnyddiwyd cerfluniau i smyglo sigaréts*[2]

[1] Arolwg Ieuenctid Ffaith o ysmygwyr ifanc 11-17 oed yng Nghaerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent rhwng 1 Mehefin a 30 Mehefin 2008.

- ✓ *Carcharwyd dau am geisio smyglo sigaréts wedi'u cuddio mewn drysau*[2]
- ✓ *Cyhuddir cwpl o smyglo 857,000 o sigaréts*[3]
- ✓ *Darganfuwyd 4 miliwn o sigaréts ffug mewn crât teganau.*[4]

Yn ystod wythnos yn Nhachwedd 2008 archwiliwyd dros 54,000 o bacedi sigaréts mewn 12 ardal yn Ne-ddwyrain Cymru i ddarganfod a oeddynt yn ddilys ai peidio. Yn sgîl yr archwiliad hwnnw, atafaelwyd dros 45,000 o sigaréts a thros 144kg o dybaco rhydd.[5]

[2] http://www.walesonline.co.uk/news/cardiff-news/2009/08/29/pair-jailed-for-attempting-to-smuggle-cigarettes-hidden-in-doors-91466-24559258/
[3] http://www.walesonline.co.uk/news/cardiff-news/2009/10/28/couple-accused-of-smuggling-857-000-cigarettes-91466-25037305/
[4] http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2009/10/23/four-million-fake-ciggies-discovered-in-toy-crate-91466-24995837/
[5] Trading standards at your council. Councillors' handbook. Lacors. Ar gael yma: www.wlga.gov.uk/download.php?id=3176&l=1